**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol EUR-01-02(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 13 Chwefror 2002

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol: Aelodau**

Rhodri Morgan Gorllewin Caerdydd (

Rosemary Butler Gorllewin Casnewydd

Christine Chapman Cwm Cynon

Mike German Canol De Cymru

John Griffiths Dwyrain Casnewydd

Brian Hancock Islwyn

Tom Middlehurst Alun a Glannau Dyfrdwy

Jonathan Morgan Canol De Cymru

Dafydd Wigley Caernarfon

Phil Williams Dwyrain De Cymru

**Gwahoddedigion Sefydlog**

Jill Evans Aelod Senedd Ewropeaidd

Glenys Kinnock Aelod Senedd Ewropeaidd

Eurig Wyn Aelod Senedd Ewropeaidd

Catherine Eva Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru

Jos Gallagher Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru

George Wright Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol

**Swyddogion**

Gary Davies Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Des Clifford Pennaeth Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel

Jackie Brown Pennaeth Uned, Rhaglenni Ewropeaidd

Margaret Dineen Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Howell Rees Clerc y Pwyllgor

James Owen Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur:** EUR-01-02(p1)

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Nicholas Bourne AC, Rhodri Glyn Thomas AC, Ieuan Wyn Jones AC, Jonathan Evans ASE, Eluned Morgan ASE, y Cynghorwyr Brian Smith a Jon Huish a Rose D'Sa. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r pwyllgor fod Llysgennad Sbaen a Richard Edwards, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi anfon eu hymddiheuriadau i'r cyfarfod. Byddai'r Clerc yn ceisio trefnu dyddiadau eraill ar gyfer cyfarfod â'r Llysgennad a Richard Edwards.

1.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw at rai o'r materion yn ei adroddiad:

- Roedd cylch gwaith y pwyllgor wedi'i ymestyn i gynnwys materion allanol, yn ychwanegol at rai Ewropeaidd.
- Byddai Jerome Vignon, arweinydd y tîm llywodraethu yn y Comisiwn Ewropeaidd, yn mynychu Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd ar y pwnc 'Llywodraethu' sydd i'w gynnal yn Llandudno ar 15 Chwefror.
- Cafwyd trafodaeth ar lansio'r Ewro yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Ionawr 2002.
- Ymwelodd y Cadeirydd â Warsaw a Silesia ym mis Rhagfyr, gan gyfarfod â Dirprwy Weinidog Datblygu Economaidd Gwlad Pwyl, a Jan Olbrycht, Marsial Silesia (sy'n cyfateb i Brif Weinidog Cymru). Roedd Silesia yn gweithio ar gytundeb ffurfiol rhwng Cymru a Silesia.
- Roedd Rosemary Butler wedi'i phenodi'n aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau fel aelod llawn, a Janet Davies fyddai'r dirprwy.

1.3 Gwnaeth yr aelodau'r pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Byddai effaith yr Ewro ar Gymru yn cynyddu. Gallai'r pwyllgor ffurfio barn ar undod ariannol ond nid oedd y penderfyniad i ymuno â'r arian sengl wedi ei ddatganoli.
- Roedd gan lansio'r Ewro oblygiadau pwysig i ddiwydiant, busnesau bach a'r sector twristiaeth yng Nghymru, ac roedd hi'n bwysig bod arweiniad ymarferol ar gael i'r holl sectorau hyn.
- Dylai'r Cynulliad a'r pwyllgor ystyried sut y gellid codi ymwybyddiaeth ar oblygiadau ymarferol yr arian sengl ar draws Cymru, er y dylid osgoi gwneud y pwnc yn un gwleidyddol. Gallai'r Cynulliad chwarae rhan ragweithiol yn y gwaith o ddosbarthu gwybodaeth ar yr arian sengl ar draws Cymru.
- Gofynnwyd i'r Cadeirydd ystyried galw cyfarfod gyda'r pwyllgor Datblygu Economaidd i drafod materion sy'n gysylltiedig â'r arian sengl.
- Trafododd y pwyllgor gynrychiolaeth Cymru ar y Confensiwn ar ddyfodol Ewrop. Roedd aelodaeth y Confensiwn yn cynnwys grwpiau gwleidyddol gwahanol ac roedd wedi'i

chytuno'n barod. Byddai Peter Hain, AS

Castell-nedd, yn gweld pethau o safbwynt Cymru fel aelod o'r Confensiwn,

er mai cynrychioli llywodraeth y DU oedd ei rôl. Byddai'r Cadeirydd yn

cwrdd â Peter Hain ym mis Ebrill, a gallai'r pwyllgor ystyried ei wahodd i

fynychu cyfarfod yn y dyfodol.

- Llongyfarchodd y pwyllgor Ganolfan Ewropeaidd Cymru (CEC) ar lwyddiant cynhadledd Cymru ar y Papur Gwyn Ewropeaidd ar Ieuenctid, a gynhaliwyd yn Rhisga.

1.4 Cytunodd y pwyllgor y dylid gofyn am adroddiad ysgrifenedig ar oblygiadau'r arian sengl i Gymru.

**Eitem 2: Y Papur Gwyn ar Lywodraethu**

**Papur:** EUR-01-02(p2) ac EUR-01-02(p.3)

1. Cyflwynwyd y papur gan Des Clifford. Roedd y Cynulliad wedi ceisio cynnal trafodaethau cynhwysfawr ar y Papur Gwyn ar Lywodraethu er mwyn cyfrannu at y drafodaeth ledled Ewrop ar sut y gallai'r Comisiwn wella'i arferion. Roedd cysyniad y cytundebau teiran a amlinellwyd yn y Papur Gwyn, sy'n caniatáu cytundebau rhwng y Comisiwn, yr aelod-wladwriaeth a'r haen ranbarthol o lywodraeth, yn un newydd atyniadol. Roedd cytundebau teiran o fath yn bodoli eisoes trwy'r cronfeydd strwythurol a'r rhaglenni gweithredu arloesol. Roedd angen rhagor o fanylion am gytundebau teiran cyn y gellid asesu eu gwerth i Gymru. Byddai cyfarfod Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd ar 15 Chwefror 2002 yn gyfle i gael trafodaethau gyda Jerome Vignon ar werth cytundebau teiran i Gymru.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Gallai haenau rhanbarthol llywodraeth ddefnyddio cytundebau teiran er mwyn chwarae rhan fwy blaengar wrth lunio polisi Ewropeaidd. Gallai'r Cynulliad ystyried cyflwyno cynigion i'r Comisiwn ar sut yr hoffai weld cytundebau teiran yn gweithredu, tra'n mynd ati i lobïo'r Comisiwn, gan amlinellu meysydd polisi lle y gallai Cymru roi'r cytundebau ar brawf. Roedd Cyngor y Rhanbarthau Morol ac Ymylol wedi sefydlu gweithgor gyda'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar Bolisi Rhanbarthol i drafod y cytundebau hyn.
- Dogfen ymgynghorol oedd y Papur Gwyn yn ymwneud â gwell cyfranogiad gan ddinasyddion Ewrop. Roedd yr egwyddor o wneud y Comisiwn yn fwy hygyrch yn berthnasol i holl sefydliadau llywodraeth. Mae hefyd angen rheoleiddio mwy effeithiol a mwy cyflym, a symleiddio ar draws holl sectorau llywodraeth.

- Roedd angen cryfhau rôl Pwyllgor y Rhanbarthau ac roedd angen datblygu ei rôl ymgynghorol.
- Er mai dim ond pum corff a oedd wedi ymateb i wahoddiad y pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar y Papur Gwyn, roedd rhai o’r cyflwyniadau o safon uchel iawn. Byddai ymgynghori yn cynorthwyo i ehangu dealltwriaeth fod gan Gymru rôl gadarnhaol i’w chwarae mewn perthynas â’r Undeb Ewropeaidd.
- Un o egwyddorion allweddol y Papur Gwyn oedd cyfranogiad, ac roedd hi’n bwysig bod rhanbarthau’n gallu cyfranogi yn y broses gwneud penderfyniadau, a dylanwadu arni. Dylai’r Cynulliad ymateb i’r Papur Gwyn gyda chynigion ymarferol a datgan beth fyddai Cymru am ei gael gan y Comisiwn Ewropeaidd.

1. Cytunwyd :

- y byddai’r pwyllgor yn cael cyfle i ystyried ymateb arfaethedig y Cynulliad i’r Papur Gwyn cyn 31 Mawrth 2002.
- y byddai’r ymateb yn ystyried barn y cyrff a ymatebodd i’r ymgynghori, ynghyd â’r materion a godwyd yn y Fforwm ar 15 Chwefror.
- y byddai adroddiad ar Gynhadledd y Rhanbarthau â Phwerau Deddfu, a gynhaliwyd yn Liege, yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- Cytunodd y Cadeirydd i edrych ar bosibiliadau cytundebau teiran i Gymru.

**Eitem 3: Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd - 2002**

Papur: EUR-01-02(p.4)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur, a oedd yn amlinellu rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2002. Dywedodd Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru wrth y pwyllgor bod y rhaglen waith yn nodi blaenoriaethau gwleidyddol y Comisiwn ar gyfer 2002. Bwriad y blaenoriaethau gwleidyddol hyn oedd galluogi cyrff i uniaethu â’r Comisiwn.

   Roedd rhaglenni gwaith blaenorol wedi canolbwyntio ar y ddeddfwriaeth y byddai’r Comisiwn yn ei llunio yn ystod y flwyddyn a oedd i ddod.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd atodiad 3 i’r papur yn atodiad technegol cyfyngedig, sy’n nodi dadansoddiad manwl o’r rhaglen waith. Mae is-adrannau polisi’r Cynulliad wedi cydweithio â’r is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol ar oblygiadau polisi y papur hwn.
- Byddai CEC yn paratoi dadansoddiad manwl o ddeddfwriaeth y Comisiwn ac yn ei ddosbarthu er gwybodaeth i’r aelodau.
- Roedd hi’n bwysig i’r Cynulliad ddatblygu ymagwedd fwy rhagweithiol, strategol a

hirdymor at Ewrop.

3.3 Cytunwyd bod y papur a rhaglen waith y Comisiwn yn cael eu dosbarthu i'r pwyllgorau pwnc i'w hystyried o fewn eu meysydd polisi hwy eu hunain.

**Eitem 4: Y diweddaraf am yr Adroddiad Cynnydd ar Gydlyniant**

Papur**:** EUR-01-02(p5)

4.1 Cyflwynodd Jackie Brown y papur a oedd yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan Brif Weinidog Cymru ers ymweliad y pwyllgor â Brwsel ar 5 Rhagfyr 2001. Yr adroddiad cynnydd oedd y cyntaf o ddau gam interim cyn cyhoeddi trydydd adroddiad ar Gydlyniant, naill ai ddiwedd 2003 neu'n gynnar yn 2004.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Gallai tensiynau ddod i'r amlwg rhwng Llywodraeth y DU a'r Cynulliad ar arian rhanbarthol gan y byddai gan y Cynulliad, yn ôl pob tebyg, ddiddordeb mewn sicrhau bod y dyraniad mwyaf posibl yn dod i Gymru o'r cronfeydd strwythurol yn y dyfodol. Nododd y Cadeirydd y byddai'r math hwn o wahaniaeth barn rhwng y rheini â diddordeb mewn sicrhau'r dyraniad mwyaf o'r cronfeydd strwythurol i'w gwlad neu'u rhanbarth, a'r Gweinyddiaethau Cyllid hynny a oedd yn awyddus i gadw rheolaeth dynn ar gyllidebau'r UE a chyllidebau cenedlaethol, yn amlwg ledled Ewrop. Roedd ehangu yn ychwanegu at y tensiynau hyn, ac roedd Sbaen wedi ceisio cael gwarant ynghylch lefelau arian strwythurol yn y dyfodol cyn cytuno i'r cynigion i ehangu.
- Er bod yr adroddiad cynnydd yn cynnwys ystadegau a adlewyrchai sefyllfaoedd yr aelod-wladwriaethau o'u cymharu â'i gilydd, yn y DU, o blith yr holl aelod-wladwriaethau, yr oedd y gwahaniaethau mwyaf i'w gweld rhwng y rhanbarthau o ran Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Dywedodd y Cadeirydd fod y gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer mawr iawn o wasanaethau ariannol yn ne ddwyrain Lloegr ar adeg pan oedd gwasanaethau ariannol yn ehangu.
- Croesawodd y pwyllgor yr ymrwymiad gan y Comisiynydd Barnier i barhad rhaglen arian strwythurol effeithiol.

**Eitem 5: Adroddiad ar ail gyfarfod y Gweithgor ar Ehangu**

Papur: EUR-01 -02(p6)

5.1 Cyflwynodd Gary Davies y papur a amlinellai'r cynnydd a wnaed gan y

gweithgor ar ehangu. Yn ystod ail gyfarfod y gweithgor, ystyriwyd gefeillio trwy raglen a ariannwyd gan Ewrop. Byddai gwybodaeth yn y papur hwn yn cael ei dosbarthu ledled Cymru er mwyn hybu cyfranogiad mewn prosiectau gefeillio. Ychydig o enillion ariannol y byddai busnesau'n eu gwneud trwy'r rhaglen efeillio hon, ac roedd angen rhywfaint o ymroddiad ar ran y cyrff a oedd â diddordeb. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r rhaglen efeillio yn seiliedig ar ymgynghoriaeth neu brosiect, ac y byddai'n golygu gweithio'n agos gyda gwledydd sydd am ddod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Dylid annog y sector preifat i ddatblygu cysylltiadau â gwledydd sydd am ddod yn aelodau. Gallai MasnachCymru Rhyngwladol helpu yn hyn o beth.
- Gallai'r cysylltiadau sydd wedi'u meithrin gan Aelodau Senedd Ewrop o Gymru â gwledydd sydd am fod yn aelodau fod yn ddefnyddiol wrth lunio trefniadau gefeillio.
- Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn dosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gefeillio posibl. Byddai'r Cynulliad yn dosbarthu gwybodaeth am y rhaglen sy'n seiliedig ar brosiectau i bartïon o fewn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a fyddai â diddordeb posibl. Caiff prosiectau gefeillio eu hariannu trwy raglen PHARE y Comisiwn Ewropeaidd.
- Roedd y sectorau cyhoeddus a phreifat yn cael eu cynrychioli ar y Gweithgor Ehangu. Byddai costau sefydliadau sydd â diddordeb mewn gefeillio yn gysylltiedig â chost sicrhau bod pobl ar gael ar gyfer prosiectau mewn gwledydd sydd am ddod yn aelodau.
- Roedd cynllun 'gefeillio syml' wedi'i gyflwyno yn ddiweddar er mwyn ysgafnhau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r broses efeillio.
- Roedd cyfranogiad busnesau bach a chanolig eu maint yn y broses efeillio yn debygol o fod yn fach, er y byddai'r Cynulliad yn cefnogi ymgynghorwyr y sector preifat a oedd â diddordeb mewn datblygu trefniant.
- Nododd y Cadeirydd y gellid cynnig rhesymau da dros efeillio Cymru â bron pob un o'r gwledydd sydd am ddod yn aelodau.
- Mae'n bwysig bod y broses efeillio wleidyddol yn canolbwyntio ar dri chytundeb ar y mwyaf, a hynny mewn gwledydd neu ranbarthau lle mae cyrff y sector cyhoeddus a phreifat o Gymru yn weithgar eisoes, os yn bosibl. Roedd yn gwneud synnwyr hefyd i efeillio sy'n seiliedig ar brosiectau, a gefeillio gwleidyddol, ddigwydd ar yr un pryd.

5.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gyflwyno'u sylwadau am wledydd a rhanbarthau sydd am fod yn aelodau ac y gallai Cymru efeillio â hwy erbyn 27 Chwefror 2002.

**Eitem 6: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

6.1 Gwahoddodd y Cadeirydd wahoddedigion sefydlog y pwyllgor i gyflwyno adroddiadau ar ddatblygiadau diweddar.

6.2 Cyflwynodd Eurig Wyn adroddiad ar y materion canlynol:

- Fel aelod a etholwyd yn ddiweddar i'r pwyllgor ymchwil dros dro ar glwy'r traed a'r genau, byddai angen iddo gydweithio'n agos â'r Cynulliad a'r diwydiannau ffermio a thwristiaeth yng Nghymru.
- Byddai pwyllgor diwylliant Senedd Ewrop yn ystyried y sail gyfreithiol dros gefnogi ieithoedd lleiafrifol yn ariannol, a gallai Cymru elwa ar hyn.
- Dylai'r Cynulliad ystyried sefydlu pwyllgor deisebau a allai ddod â'r Cynulliad yn nes at ddinasyddion Cymru.

6.3 Cyflwynodd Jill Evans adroddiad ar y datblygiadau diweddar a ganlyn:

- Roedd Glenys Kinnock wedi'i hethol yn Gadeirydd y pwyllgor dros wladwriaethau Affrica, y Caribî a'r Môr Tawel, ac roedd Jonathan Evans wedi'i ethol yn arweinydd etholedig Ceidwadwyr y DU yn Senedd Ewrop.
- Roedd y gyfarwyddeb ar wybodaeth ac ymgynghori â gweithwyr wedi'i mabwysiadu gan y Senedd er na chaiff ei gweithredu yn y DU am 6 blynedd.
- Byddai'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiad cyn bo hir ar waith hyblyg a gwaith asiantaeth fel rhan o'r agenda gymdeithasol a fyddai'n cael ei hystyried yn yr uwchgynhadledd yn Barcelona.
- Roedd cynigion ar gyfer labelu bwydydd a addaswyd yn enetig yn mynd trwy'r broses seneddol ar hyn o bryd. Roedd yr Unol Daleithiau yn bygwth mynd â'r Undeb Ewropeaidd gerbron Corff Masnachu'r Byd pe cadarnheid y cynigion hyn.
- Roedd y Senedd wedi cadarnhau protocol Kyoto bron yn unfrydol.
- Dylai'r Cynulliad ystyried gofyn am sefydlu swyddfa Senedd Ewrop yng Nghymru. Cytunodd y pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywydd y Senedd ynglyn â'r cynnig hwn.

6.4 Cyflwynodd Rosemary Butler adroddiad ar waith Pwyllgor y Rhanbarthau:

- Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn adlewyrchu gwaith y Senedd, gan weithredu ar sail ymgynghorol a chan roi trosolwg o reoliadau Ewrop.

- Roedd Syr Albert Bore wedi'i ethol yn Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau, ac ef oedd yr aelod cyntaf o'r DU i ddal y swydd honno. Ei amcan ar gyfer y Pwyllgor fyddai dylanwadu ar Frwsel ac ar ddinasyddion Ewrop.
- Roedd gan Bwyllgor y Rhanbarthau 6 chynrychiolydd a 6 dirprwy ar y confensiwn ar gyfer Cynhadledd Rynglywodraethol 2004.
- Roedd aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau o Gymru wedi cytuno i weithio fel tîm, gan gysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop, CEC a swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel i geisio dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau.
- Roedd posibilrwydd y gallai comisiwn o Bwyllgor y Rhanbarthau gyfarfod yng Nghymru.

6.5 Cyflwynodd Catherine Eva adroddiad ar y materion a ganlyn:

- Roedd y Comisiwn yn fodlon ar y ffordd ddidrafferth y cyflwynwyd yr arian sengl.
- Byddai'r Comisiwn yn archwilio'r rôl cysylltiadau a gwybodaeth yr oedd y Cynulliad wedi ymgymryd â hi.
- Byddai swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn symud i Caspian Point ym mis Gorffennaf 2002.

6.6 Cyflwynodd George Wright adroddiad ar y materion a ganlyn:

- Roedd y Pwyllgor Economaidd a Cymdeithasol yn archwilio'r broses ehangu ond roedd hon yn dasg enfawr.
- Roedd ardal masnach rydd yn cael ei datblygu, gan gynnwys gwledydd y Canoldir a Gogledd Affrica, a fyddai'n berthnasol i Cyprus a Malta.
- Roedd India'n gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a fyddai'n ei galluogi i fasnachu â'r Undeb Ewropeaidd, ond byddai hefyd yn fygythiad o ran cystadleuaeth.
- Roedd China'n gwneud cynnydd sylweddol trwy ei diwydiannau gweithgynhyrchu ac roedd yn gystadleuwr posibl.
- Byddid yn ystyried rhoi mwy o wybodaeth am gynnyrch ar decstilau ac ar gynhyrchion eraill er mwyn gweithredu yn erbyn llafur plant mewn gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.
- Dyrannwyd 3 lle i'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol ar y confensiwn ar gyfer cynhadledd rynglywodraethol 2004.

**Eitem 7: Rhyddfrydoli'r Gwasanaethau Post yn yr Undeb Ewropeaidd**

7.1 Hysbyswyd y pwyllgor gan Bennaeth cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru fod y cynigion i ddiwygio cyfarwyddeb y gwasanaethau post wedi'u cyflwyno i Senedd Ewrop am ail ddarlleniad. Oherwydd y cyhoeddiadau diweddar gan Consignia, cytunodd y pwyllgor fod digwyddiadau diweddar wedi effeithio ar y mater hwn.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Papur: EUR-06-01(min)

8.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.